# CYNNIG GOFAL PLANT
# CYNLLUN GRANTIAU BACH
# CYNGOR SIR GAR:
# CANLLAWIAU AC AMODAU

# CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL
# CHILDCARE OFFER SMALL GRANT SCHEME:
# GUIDANCE AND CONDITIONS


Dylid cyfeirio bob ymholiad i'r:

**Gwybodaeth Teuluoedd, Gofal Plant a Chwarae**
Adeilad 2,
Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin
SA31 3HB

All enquiries should be directed to the:

**Family Information, Childcare & Play Team**
Building 2,
Parc Dewi Sant,
Jobs Well Road,
Carmarthenshire
SA31 3HB

**Ffôn / Tel:** 01267 246555
**Ebost / E-mail: childreninfo@carmarthenshire.gov.uk**

| **Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â Rhaglen Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant<br>(GCCGP – Sir Gâr - 01)** | **Award of Funding in relation to Childcare Offer Capital Grant Programme<br>(COCG - Carmarthenshire - 01)** |
|---|---|
| **NODIADAU CYFARWYDDYD A THELERAU** | **GUIDANCE NOTES AND CONDITIONS** |
| Mae pob lleoliad sydd wedi'i gofrestru â Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n cynnig llefydd i'r Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed neu sy'n bwriadu cynnig llefydd yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr sector preifat a gwirfoddol, a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig gofal dydd, gofal cofleidiol neu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Gellir hefyd ystyried ceisiadau gan ddarparwyr gofal plant sydd yn y broses o wneud cais i gofrestru. Bydd angen (i'r Cyngor) fod yn fodlon bod y darparwr yn y broses o wneud y cais hwnnw i AGC. **Rhaid bod y darparwr gofal plant wedi'i leoli o fewn Sir Gâr.**<br><br>Ni all darparwr wneud cais i fwy nag un Awdurdod Lleol er y gall fod yn cymryd plant o fwy nag un Awdurdod.<br><br>**<u>Wrth wneud cais rhaid i'r ddarparwr:</u>**<br><br>- Allu dangos bod galw heb ei ddiwallu am ofal plant;<br>- Cofrestru gydag AGC neu yn achos darparwyr newydd, rhoi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl. Os nad yw lleoliad wedi cofrestru o fewn 6 mis ar ôl tynnu'r grant i lawr yna gall y Cyngor gymryd camau i adfer yr arian;<br>- Cofrestru gyda Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu'r lleoedd Cynnig Gofal Plant neu roi addewid ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda'r Cyngor;<br>- Gallu dangos sicrwydd deiliadaeth am o leiaf 5 mlynedd. Lle bo llai na 5 mlynedd ar ôl ar y prydles, gellir ystyried ceisiadau lle gall y darparwr ddangos bod ymrwymiad neu fwriad clir gan y landlord i adnewyddu'r les; | All settings registered with Care Inspectorate Wales (CIW) who are offering Childcare Offer places for 3 and 4 year olds or who intend to offer places are eligible to apply. This includes childminders, private and voluntary sector providers, and maintained settings offering day care, wrap around care or holiday play schemes. Applications can also be considered from childcare providers who are in the process of applying for registration. (The Council) will need to be satisfied that the provider is genuinely in the process of making an application to CIW. **The childcare setting location must be based in Carmarthenshire.**<br><br>A provider cannot apply to more than one Local Authority even though they may be taking children from more than one Authority area.<br><br>**<u>In making an application a provider must:</u>**<br><br>- Be able to demonstrate that there is an un-met demand for childcare;<br>- Be registered with CIW or in the case of new providers, give a written undertaking that it will register with CIW at the earliest opportunity. If a setting is not registered within 6 months of grant having been drawn down then the Council may take steps to recover the funds;<br>- Be registered with Ceredigion Council to deliver Childcare Offer places or give a written undertaking that it will be registering with the Council;<br>- Be able to demonstrate security of tenure for a minimum of 5 years. Where the number of years remaining of a lease is less than 5 years, consideration may be given to applications where the provider is able to show that there is a clear |

| | |
|---|---|
| - Bod yn barod i ymrwymo i gynnig lleoedd y Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir y taliad grant terfynol a chydnabod os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffioedd yn rheolaidd o flaen y rhai sy'n derbyn y Cynnig, yna y bydd gofyn iddo ad-dalu'r holl gyllid grant a delir neu ran ohono. Bydd y swm i'w ad-dalu yn amrywio yn ddibynnol ar yr amgylchiadau;<br>- Bod yn barod i weithio ochr yn ochr â Swyddogion Datblygu Gofal Plant i sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor;<br>- Cydnabod y buddsoddiad y mae wedi'i dderbyn mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo a roddir i rieni.<br><br>**Gellir ystyried y canlynol hefyd, yn enwedig os yw'r Grant wedi'i ordanysgrifio:**<br>- Bod y darparwr yn aelod o sefydliad ymbarél gofal plant fel NDNA, Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, PACEY Cymru, ac ati. Fodd bynnag, er ei bod yn syniad da cofrestru gydag un o'r sefydliadau hyn, nid yw'n orfodol.<br>- Y gellir darparu'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol er mwyn darparu'r 48 wythnos lawn y mae gan y plentyn hawl iddynt;<br>- Bod y lleoliad yn gallu darparu lleoedd gofal plant ychwanegol yn sgil y buddsoddiad neu y bydd ansawdd y lleoedd gofal plant yn gwella;<br>- Bod gan y lleoliad ddyfarniad sicrhau ansawdd dilys. | commitment or intent from the landlord to renew the lease;<br>- Be prepared to commit to offer Childcare Offer places for a minimum of 5 years from the date on which the final grant payment is made and acknowledge that if it stops providing Childcare Offer places or routinely accepts fee paying children over those in receipt of the Offer, then it will be required to repay all or part of the grant funding paid. The amount repayable will vary depending on the circumstances;<br>- Be prepared to work alongside Childcare Development Officers to ensure viability and long term sustainability;<br>- Acknowledge the investment it has received in any promotional material issued to parents.<br><br>**Consideration may also be given to the following, particularly if the Grant is oversubscribed:**<br>- The provider is a member of a childcare umbrella organisation such as NDNA, Mudiad Meithrin, Early Years Wales, Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, PACEY Cymru, etc. However whilst registration with one of these organisations is advisable, it is not obligatory;<br>- The Childcare Offer can be delivered during term time and the school holidays in order to provide the full 48 weeks that the child is entitled to;<br>- The setting will be able to deliver additional childcare places as a result of the investment or the quality or range of the childcare places will improve;<br>- The setting has a valid quality assurance award. |
| Gellir dyfarnu cyllid grant i leoliadau i'w galluogi<br>- i gynyddu nifer y lleoedd y gallant eu cynnig;<br>- i wella ansawdd y cyfleusterau y maent yn eu cynnig; neu<br>- i ostwng ystod oedran eu darpariaeth i gynnwys plant 3 a 4 oed.<br>Byddem yn disgwyl manylion yr uchafswm sydd ar gael mewn unrhyw un lleoliad ar unrhyw adeg benodol yn ystod y flwyddyn | Grant funding can be awarded to settings to enable them:<br>- to increase the number of places they are able to offer;<br>- to improve the quality of the facilities they offer; or<br>- to lower the age range of their provision to include 3 and 4 year olds.<br>We would expect the maximum amount available to any one setting in any given financial year to be as detailed below. However |

ariannol fel y manylir isod.  Fodd bynnag gall y Cyngor benderfynu cynnig yr uchafswm o £10,000 dan amgylchiadau eithriadol.

Mae swm y grant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol:

| | |
|---|---|
| **Gwarchodwyr plant a'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 8 neu llai** | **£5,000** |
| **Darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 9 i 15 lle** | **£7,500** |
| **Darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 16+ lle** | **£10,000** |

the Council can use its judgement to offer the maximum amount of £10,000 if there are exceptional circumstances.

The amount of the grant depends on individual circumstances:

| | |
|---|---|
| **Childminders and those registered for 8 or fewer** | **£5,000** |
| **Childcare providers registered for 9 to 15 places** | **£7,500** |
| **Childcare providers registered for 16+ places** | **£10,000** |

Rydym yn rhagweld galw mawr am y grant felly mae'n rhaid i geisiadau fod yn realistig ac yn berthnasol i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant felly rhowch gymaint o dystiolaeth â phosibl i gefnogi'ch cais. Bydd pob cais yn cael ei asesu a'i sgorio ar sail unigol gan banel a bydd lleoliadau llwyddiannus yn cael gwybod am y dyfarniad sy'n cael ei gynnig iddynt.

We do anticipate a high demand for the grant so applications must be realistic and relevant to the delivery of the Childcare Offer so please provide as much evidence as possible to support your application.  Each application will be assessed and scored on an individual basis by a panel and successful settings will be notified of the award being offered to them.

| LLEOLIADAU PLANT<br>(Gofal Dydd Llawn, Cylchoedd Meithrin, Grwpiau Chwarae a Gofal Tu Allan i'r Ysgol) | CHILDCARE SETTINGS<br>(Full Day Care, Cylchoedd Meithrin, Playgroups & Out of School Care) |
|---|---|
| **Gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y mae'n bosib y bydd ei angen fel:**<br>- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys peintio, adnewyddu hen garpedi ac ati;<br>- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, fel cael arwyneb chwarae awyr agored newydd neu ddarparu canopi;<br>- Adnewyddu/ atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati;<br>- Adnewyddu hen gyfarpar/ dodrefn/ teganau a allai fod yn risg iechyd a diogelwch  Er enghraifft ffrâm ddringo wedi rhydu, dodrefn wedi malu neu wedi treulio, a allai achosi anaf; neu fwrdd newid hen neu ddiolwg, na ellir ei lanhau yn drylwyr mwyach;<br>- Cyfarpar TG os gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron, argraffyddion ac ati;<br>- Addasiadau i'r lleoliad er mwyn gallu cynyddu e.e. gosod toiledau ychwanegol<br>- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad ac ati;<br>- Darparu cyfarpar/dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi'r darparwr i dderbyn plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol;<br>- Prynu cyfarpar a fydd yn galluogi'r lleoliad i gynnwys plant 3 a 4 oed; a<br>- Chyfrannu at brynu bws mini a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gludo plant rhwng yr elfennau gofal plant ac addysg sy'n rhan o'r Cynnig. Nid yw costau lesio yn gymwys i dderbyn cynnig na chwaith gostau rhedeg fel yswiriant, petrol, gwasanaethu ac ati. | **Funding can be offered for various capital works that may be needed such as:**<br>- General refurbishment, including painting, replacing carpets, etc;<br>- Improving the outdoor play facilities of a setting, such as replacing the outdoor play surface or providing a canopy;<br>- Replacing / repairing fixtures and fittings such as toilets, kitchen facilities, windows, doors, etc;<br>- Replacing worn equipment / furniture / toys which could potentially pose a health and safety risk. So for example a rusted outdoor climbing frame, broken or badly worn furniture, which could cause splinters; or a well-used and tatty changing table, which can no longer be hygienically cleaned;<br>- IT equipment provided it can be clearly shown that there is a need in order to deliver Childcare Offer places, this could include laptops, printers, etc.;<br>- Adaptations to the setting in order to increase capacity e.g. installation of additional toilets.<br>- Adaptations to the setting to improve access, etc;<br>- The provision of bespoke equipment / furniture which will enable a provider to accommodate a child with additional learning needs;<br>- Purchasing equipment which will enable the setting to accommodate 3 and 4 year olds; and<br>- Towards the purchase of a minibus which would be used to transport children between the childcare and education elements of the Offer. Leasing costs are not eligible for funding and neither are running costs such as insurance, petrol, servicing, etc. |

| Beth na ellir ei ariannu | What cannot be funded |
|---|---|
| **<u>Beth na ellir ei ariannu:</u>**<br>Mae'r arian grant ar gyfer pryniant cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu neu sy'n gwella gwerth yr eiddo.<br><br>**Ni ellir ei ddefnyddio i ariannu:**<br>- Prynu defnyddiau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati<br>- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;<br>- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan a threthi;<br>- Darpariaeth Wi-Fi;<br>- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati.<br><br>Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â gwybplant@sirgar.gov.uk gyda'ch ymholiad. | **<u>What cannot be funded:</u>**<br>The grant funding is for capital purchases only, essentially something that has a resale value or improves the value of the property.<br><br>**It cannot be used to fund:**<br>- The purchase of consumables, such as paper, cleaning materials, nappies, etc;<br>- Staff costs such as wages, training, travel and subsistence;<br>- Utility bills such as gas, electric, rates;<br>- The provision of WiFi;<br>- Insurance costs e.g. building insurance, employer's liability insurance, etc.<br><br>This list is not exhaustive; if there is any doubt as to whether or not an item is eligible please contact childreninfo@carmarthenshire.gov.uk with your query. |

| **GWARCHODWYR PLANT YN UNIG** | **CHILDMINDERS ONLY** |
|---|---|
| Gan fod gwarchodwyr plant yn gweithio mewn eiddo domestig mae'r canllawiau ar gyfer gwneud cais am Gyllid Cyfalaf yn wahanol. **Gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y mae'n bosib y bydd ei angen fel**:<br><br>- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, fel cael arwyneb chwarae awyr agored newydd neu ddarparu canopi;<br>- Adnewyddu hen gyfarpar/ dodrefn/ teganau a allai fod yn risg iechyd a diogelwch. Felly, er enghraifft ffrâm ddringo wedi rhydu, dodrefn wedi malu neu wedi treulio, a allai achosi anaf; neu fwrdd newid hen neu ddiolwg, na ellir ei lanhau yn drylwyr mwyach;<br>- Cyfarpar TG os gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron, argraffyddion ac ati;<br>- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad ac ati; a<br>- Darparu cyfarpar/dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi'r darparwr i dderbyn plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Dylai gwarchodwyr plant ddangos tystiolaeth glir o'r angen a sut y mae hyn yn fanteisiol i'r lleoliad gwarchod plant a'r plant sydd yn eu gofal gan eu bod yn gweithio mewn eiddo domestig. | As childminders work on domestic premises the guidance for applications for Capital Funding is different. **Funding can however be offered for various capital works that may be needed such as**:<br><br>- Improving the outdoor play facilities of a setting, such as replacing the outdoor play surface or providing a canopy;<br>- Replacing worn equipment / furniture / toys which could potentially pose a health and safety risk. So for example a rusted outdoor climbing frame, broken or badly worn furniture, which could cause splinters; or a well-used and tatty changing table, which can no longer be hygienically cleaned;<br>- IT equipment provided it can be clearly shown that there is a need in order to deliver Childcare Offer places, this could include laptops, printers, etc.;<br>- Adaptations to the setting to improve access, etc.;<br>- The provision of bespoke equipment / furniture which will enable a provider to accommodate a child with additional learning needs.<br><br>Childminders should clearly demonstrate evidence of need and how this benefits the childminding setting and children in their care given that they are working on domestic premises. |
| **Beth na ellir ei ariannu:**<br>Mae'r cyllid grant ar gyfer pryniadau cyfalaf yn unig, sef rhywbeth sydd â gwerth adwerthu. Mewn lleoliad gwarchod plant ni ellir ei ddefnyddio i gyllido:<br><br>- Prynu defnyddiau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati<br>- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;<br>- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan a threthi;<br>- Darpariaeth Wi-Fi;<br>- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati. | **What cannot be funded:**<br>The grant funding is for capital purchases only, essentially something that has a resale value. In a childminding setting it cannot be used to fund:<br><br>- The purchase of consumables, such as paper, cleaning materials, nappies, etc;<br>- Staff costs such as wages, training, travel and subsistence;<br>- Utility bills such as gas, electric, rates;<br>- The provision of WiFi;<br>- Insurance costs e.g. building insurance, employer's liability insurance, etc. |

| | |
|---|---|
| - Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys peintio, adnewyddu hen garpedi ac ati;<br>- Adnewyddu/ atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati;<br><br>Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â gwybplant@sirgar.gov.uk gyda'ch ymholiad. | - General refurbishment, including painting, replacing carpets, etc.<br>- Replacing / repairing fixtures and fittings such as toilets, kitchen facilities, windows, doors, etc;<br><br>This list is not exhaustive; if there is any doubt as to whether or not an item is eligible please contact childreninfo@carmarthenshire.gov.uk with your query. |
| **Ni ellir defnyddio grantiau at unrhyw ddiben oni bai am yr hyn a nodir yn y ffurflen gais ac o fewn y Telerau ac Amodau.**<br><br>**Bydd disgwyl i geisiadau llwyddiannus dderbyn y cynnig yn ysgrifenedig trwy lofnodi'r Contract Derbyn y grant.** | **Grants cannot be used for any purpose other than that stated on the application form and within the Terms and Conditions.**<br><br>**Successful applications will be required to formally accept the offer in writing by signing the Acceptance Contract.** |
| Dylid gwario'r  arian sydd wedi'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn ariannol hynny.<br>Bydd angen  i chi lenwi adroddiad ar sut y defnyddiwyd y cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol.<br><br>**Os bydd derbynnydd grant yn methu â chydymffurfio ag amodau'r grant neu ddim yn dychwelyd yr adroddiad erbyn dyddiad penodol yna bydd gofyn i chi ad-dalu'r arian yn llawn neu'n rhannol**. Bydd y swm yn ad-daladwy ar unwaith i'r Cyngor. | All funding allocated within a financial year should be spent before the end of that year. You will be required to complete a report on how the funding was used during that financial year.<br><br>**Should a grant recipient fail to comply with the conditions of the grant or fail to return the report by the set date then you will be required to repay the funding in full or part.** Such sum shall be immediately repayable to the Council. |

| | |
|---|---|
| Bydd disgwyl i bob darparwr sy'n derbyn cyllid o'r Cynllun Grantiau Bach cytuno i dderbyn y cynnig yn ffurfiol trwy lofnodi'r Contract Derbyn yn ogystal â Thelerau ac Amodau'r grant.<br><br>- Mae'r arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw lenyddiaeth fel cylchlythyrau a roddir i rieni, a dylid defnyddio'r brandio Cynnig Gofal Plant;<br><br>- Os ydych chi'n prynu nwyddau a / neu wasanaethau i gyflawni pwrpas y cais bydd yn rhaid i chi eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy i ddangos eich bod wedi cyflawni y gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.  Bydd angen i chi gyflwyno 3 amcangyfrif, a rhesymeg glir dros ddewis eich dewis i fynd gyda'r cais.<br><br>- Wrth dderbyn y cynnig o'r cyllid mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y telir yr arian grant;<br><br>- Os bydd yr ymgeisydd yn methu â derbyn plant sy'n cael eu hariannu drwy'r Cynnig, yna bydd yn atebol i ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian. Ni fydd hyn yn berthnasol os gall yr ymgeisydd ddangos yn glir y byddai ef / hi yn croesawu plant o dan y Cynnig ond nad oes neb yn manteisio arno;<br><br>- Os bydd y lleoliad yn rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffioedd yn rheolaidd dros y rhai sy'n derbyn y Cynnig, yna bydd yn ofynnol iddynt ad-dalu'r holl arian grant a dalwyd;<br><br>- Rhaid gwario'r arian ar yr eitemau hynny y bernir eu bod yn gymwys i gael eu hariannu yn unig, os oes tystiolaeth bod unrhyw ran o'r cyllid wedi'i defnyddio ar gyfer eitemau anghymwys, yna bydd yn ofynnol i'r lleoliad ad-dalu'r swm hwnnw;<br><br>- Gall darparwr wneud cais am gyllid ar gyfer yr un lleoliad fwy nag unwaith mewn | All providers in receipt of funds from the Small Grants Scheme will be required to formally accept the offer in writing, by signing the Acceptance Contract as well as the Terms and Conditions of the grant.<br><br>- The funding is being provided by the Welsh Government and this must be acknowledged in any literature such as newsletters issued to parents, and the Childcare Offer branding should be used;<br><br>- If you buy goods and / or services to achieve the purpose of the application you will have to buy them in a competitive and sustainable way to show that you have achieved the best value when using public money.  You will need to submit 3 estimates, and a clear rationale for choosing your option to accompany the application.<br><br>- In accepting this offer of funding the applicant agrees to provide Childcare Offer places for a minimum of 5 years from the date the grant funding is paid;<br><br>- If the applicant fails to accept children being funded via the Offer, then it will be liable to repay all or part of the funding. This will not apply if the applicant can clearly demonstrate that he / she would welcome children under the Offer but there is no take up;<br><br>- If the setting stops providing Childcare Offer places or routinely accepts fee paying children over those in receipt of the Offer, then they will be required to re-pay all or part of the grant funding paid;<br><br>- The funding must be spent solely on those items deemed eligible for funding, if there is evidence that any part of the funding has been used for ineligible items then the setting will be required to repay that amount;<br><br>- A provider may apply for funding for the same setting more than once in any financial year, provided that the total |

| | |
|---|---|
| unrhyw flwyddyn ariannol, ar yr amod nad yw'r cyfanswm a ddyfernir i leoliad unigol yn fwy na £10,000 yn y flwyddyn honno; | amount awarded to an individual setting does not exceed more that £10,000 in that year; |
| - Wrth dderbyn yr arian grant mae'r ymgeisydd yn cytuno i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | - In accepting the grant funding the applicant agrees to treat the Welsh language no less favourably than the English language. |
| - Bydd yn rhaid cadw a dychwelyd derbyniadau / anfonebau ar gyfer yr holl wariant gyda'r ffurflen fonitro cyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol; | - Receipts / invoices for all expenditure will have to be kept and returned with a monitoring form before the end of the relevant financial year; |
| - Mae gan y Rheolwraig Gofal Plant Strategol yr hawl i gynnal ymweliad monitro i sicrhau bod yr arian grant wedi'i wario'n union fel y nodir ar y ffurflen gais wreiddiol ac i archwilio eich dogfennaeth a chytunwch i gyd-weithredu â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. | - The Council Strategic Childcare Manager has the right to conduct a monitoring visit to ensure that the grant money has been spent exactly as stated on the original application form and inspect your documentation and you agree to co-operate with the Council and the Welsh Government in that regard. |
| - Mae disgwyl y byddwch yn cadw eitemau a brynwyd gyda'r arian grant am gyfnod penodol ar ôl cwblhau'r prosiect ac os byddwch yn gwerthu, trosglwyddo, prydlesu neu waredu fel arall yr holl asedau a brynwyd o fewn 5 mlynedd o'r taliad olaf, bydd gofyn i chi dalu rhywfaint o'r arian yn ôl i'r Cyngor yn gymesur. | - There is an expectation that you will retain items purchased with the grant funding for a set period from completion of the project and should you sell, transfer, lease or otherwise dispose of all or any substantial part of the assets purchased within 5 years of final payment, you will be required to pay some of the funding back proportionally to the Council. |
| - Rydych yn cytuno i ad-dalu arian i'r Cyngor ar gais os digwydd i chi dorri amodau'r grant. | - You agree to repay funding to the Council on demand in the event of a breach by you of the terms under which the grant is awarded. |
| - Bydd gennych yswiriant digonol. | - You will have adequate insurance cover in place. |
| - Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac efallai y bydd gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth os oes angen. | - You acknowledge that we are subject to the requirements of the Freedom of Information Act 2000 and you may be required to disclose information if required. |
| - Am 5 mlynedd o ddyddiad olaf talu'r Cynllun Grantiau Bach, rydych yn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo dymunir Llywodraeth Cymru ei gynnal. | - For 5 years from the final date of payment for the Small Grants Scheme you agree to participate in any promotional material required to be undertaken by Welsh Government. |

| | |
|---|---|
| Yn yr holl gyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Gofal Plant, dylid cyfeirio at y ffaith bod grant wedi'i ddyfarnu gan Gyngor Sir Gâr drwy Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae angen i leoliadau gofal plant hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant (gan ddefnyddio brandio a'r geiriad priodol) trwy gyfryngau cymdeithasol, taflenni, a mathau eraill o hysbysebu. | In all publicity associated with the Childcare Offer, reference should be made to the fact that a grant has been awarded by Carmarthenshire County Council through the Welsh Government's Capital Grant. Childcare settings need to promote the Childcare Offer (using the appropriate branding and wording) through social media, flyers, and other forms of advertising. |
| Bydd ceisiadau yn cael ei ystyried ar wahanol adegau yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Gweler isod dyddiadau cau cyflwyno cais. | Applications will be dealt with at various intervals during the next two years. Please see below closing dates for submission of applications. |
| **Dyddiad cau ceisiadau:** | **Closing date for applications:** |
| Dydd Gwener Tachwedd 22 2019 | Friday, November 22nd 2019 |
| Dydd Gwener, Chwefror 14 2020 | Friday, February 14th 2020 |
| Dydd Gwener, Ebrill 3 2020 | Friday, April 3rd 2020 |
| Dydd Gwener, Mehefin 19 2020 | Friday, June 19th 2020 |
| Dydd Gwener, Hydref 23 2020 | Friday, October 23rd 2020 |
| **Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ddim yn cael ei ystyried tan y dyddiad cau nesaf.** | **Any applications received after the closing date will not be considered until the next closing date.** |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council